

Cyflogau staff cymorth yr Aelodau

Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 14(4) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 30 Tachwedd 2023, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniadau mewn perthynas â chyflogau staff a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd o dan adrannau 20(2) a 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae penderfyniadau'r Bwrdd fel a ganlyn.

1. Bod yr holl staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd yn cael swm ychwanegol, anghyfunol o £600, pro-rata, i adlewyrchu eu horiau gwaith contract fel ar 30 Tachwedd 2023. Bydd y taliad yn cael ei wneud fel rhan o gyflogau mis Ionawr, neu fel y trefnir fel arall gan Gomisiwn y Senedd.
2. Bod y cyflog a ddisgrifir fel "Band 3 Pwynt Cyflog 1" yn Nhabl 2 paragraff 7.1.5, a Thabl 3 paragraff 8.2.6, o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau ar gyfer 2023-24 (Mawrth 2023) yn cael ei gynyddu i £23,088 yn effeithiol am y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024.
3. Bod staff cymorth a gyflogir ar "Fand 3 Pwynt Cyflog 1" yn ystod mis Tachwedd 2023 sy'n parhau mewn cyflogaeth ar 30 Tachwedd 2023 yn cael swm ychwanegol, anghyfunol, i'w gyfrifo'n unigol ar gyfer pob aelod o staff. Bydd y swm yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y cyflog misol gros a dderbyniwyd gan yr aelod o staff ar gyfer mis Tachwedd 2023, a'r cyflog misol gros a fyddai wedi dod i law pe bai wedi bod yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd 2023. Bydd y taliad yn cael ei wneud fel rhan o gyflogau mis Rhagfyr, neu fel y trefnir fel arall gan Gomisiwn y Senedd.

Gofynion o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

O dan amgylchiadau arferol, mae'r Bwrdd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu costau yr eir iddynt gan yr Aelodau (neu gan grwpiau) wrth gyflogi staff heb fod yn fwy nag unwaith ar gyfer pob blwyddyn ariannol (fel yr amlinellir yn adran 14(2) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010").

Yn unol ag adran 14(3) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 14(2) o Fesur 2010 beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr amgylchiadau economaidd presennol ac yn benodol bod y DU wedi profi cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym, sy'n parhau i gael effaith sylweddol ar gostau byw. Mae Nodiadau Esboniadol Mesur 2010 yn

benodol yn nodi bod cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym yn enghraifft o amgylchiadau eithriadol.

Barn y Bwrdd yw bod yr amgylchiadau eithriadol hyn yn ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r Bwrdd benderfynu bod taliad ychwanegol yn cael ei wneud i'r holl staff cymorth.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi ystyried cyhoeddiad y Sefydliad Cyflog Byw ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol ar 24 Hydref 2023. Mae'r Bwrdd yn nodi mai dyma'r tro cyntaf i'r Cyflog Byw Gwirioneddol fynd y tu hwnt i gyflogau rhai staff cymorth, sy'n golygu bod y rhai ar Fand 3 Pwynt Cyflog 1 yn derbyn cyflog islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Barn y Bwrdd yw bod yr amgylchiadau eithriadol hyn yn ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol penderfynu ar y canlynol:

- cynnydd yng nghyflog Pwynt Cyflog 1 Band 3 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024, a
- thaliad ychwanegol i staff cymorth sydd wedi derbyn y cyflog Band 3 Pwynt Cyflog 1 ym mis Tachwedd 2023, sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y cyflog misol gros a dderbyniwyd gan yr aelod o staff ar gyfer mis Tachwedd 2023, a'r cyflog misol gros a fyddai wedi dod i law pe bai wedi bod yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd 2023.

Wrth ddod i'r penderfyniadau hyn, rhoddodd y Bwrdd sylw i'w egwyddorion arweiniol a nodir yn Strategaeth y Bwrdd ar gyfer 2021 – 2026, yn ogystal â'r data economaidd a phwysau chwyddiant y cyfeirir atynt uchod. Yn benodol, yn unol ag egwyddor arweiniol y Bwrdd, sef sicrhau bod ei benderfyniadau yn briodol yng nghyd-destun enillion Cymru, trafododd y Bwrdd wybodaeth am dueddiadau cyflog presennol yng Nghymru a'r DU.

Mae'r datganiad hwn yn ddatganiad ysgrifenedig i Gomisiwn y Senedd at ddibenion adran 14(4) o Fesur 2010.